## CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 13eg Chwefror, 2023**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.40 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Siôn Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Efan Thomas, Iwan J. Williams, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Elin Hughes, Carys E. Williams

92. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** yr Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

93. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**'Roedd** Y Cynghorydd Glyn Roberts yn dymuno datgan buddiant personol yng nghais C22/1133/32/LL a nodir o dan eitem 95(a) isod.

94. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed IONAWR, 2023**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 9fed Ionawr, 2023. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(A)Eitem 82 – Cymal (B) Eitem 75 – Materion Ffyrdd a Llwybrau (tud. 1)**

**Adroddwyd** fod y bin halen yn ei lle ar Ystad Bryn Mair, Bryncroes, ac fod anfoneb gan Gyngor Gwynedd eisoes wedi ei dderbyn am y gwaith – gweler y taliad o dan eitem 97 'awdurdod i dalu.'

.**(B)Eitem 84 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**Cyflwynwyd** atebiad y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw yn dilyn y cyfarfod diwethaf:

"*Allt Sarn Mellteyrn* – mae'r ffordd bellach wedi cael ei glanhau.

*Glanhau pentrefi* – mae amlder glanhau pentrefi wedi cael ei effeithio oherwydd nad yw'r Adran Bwrdeisterfol bellach yn ymgymgryd â'r gwaith hyn oherwydd prinder staff a newidiadau i Adran Priffyrdd, Bwrdeistrefol a YGC. Ar hyn o bryd mae Adran Priffyrdd yn ceisio dal i fyny gyda'r rhaglen waith ysgubo trefol yn ogystal a'r gwaith sydd ganddynt yn barod.

*Draen ger Mellteyrn* – Mae'r draen ger Mellteyrn wedi'i adnabod ac wedi'i roi ar restr waith y peiriant glanhau gwteri a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael."

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

(**C)Eitem 87 – Is-bwyllgor cyllid**

**Trafodwyd** ymhellach wariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn nesaf a chan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld a Phen Llŷn ym mis Awst awgrymwyd y byddai gosod potiau blodau yn y pentrefi yn harddu'r ardal; ceisio cael yr ysgolion (Pont y Gof a Botwnnog) a'r Ffermwyr Ieuainc i fod yn rhan o unrhyw fenter; cael hysbysfyrddau yn yr ardal; cael lloches bws ger y Feddygfa ym Motwnnog.

Addawodd y Clarc y byddai'n gwneud ymholiadau ynglyn a phrisiau a.y.; hefyd yn gwneud ymholiadau am grant gan AHNE Llyn, ac adrodd yn ôl i'r Cyngor nesaf.

**Penderfynwyd** nodi'r uchod.

**(CH) Eiteim 88 – Cronfa COVID-19 Llyn ac Eifionydd**
**Derbyniwyd** gwybodaeth fod £678.55 wedi cael ei drosglwyddo'n ôl o Gronfa Covid Ty Doctor.
**Penderfynwyd** y gallai'r arian yma fynd at gael lloches bws.

95. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:
(a) Cais C22/1133/32/LL – estyniad i adeilad anifaeliaid – creu stofa slyri o dan llawr adeilad presennol yn Fferm Bryn Mawr, Brynmawr
(b) Cais C22/1079/32/LL – cais i newid defnydd sied a ganiatawyd i storio peiriannau ac offer amaethyddol i storfa dail ynghyd a chreu pwll tail – Caerau, Llangwnnadl
(c) Cais C22/1099/32/LL – cais ar gyfer codi to newydd uwchben iard fwydo a rhan o iard gasglu bresennol ynghyd ac estyniad i glamp silwair gyda tho drosto, gosod tanc elifiant a draen dwr oddi ar y to i ffrwd a gwaith cysylltiol – Trygarn, Sarn Mellteyrn.
(ch)Cais C23/0045/32/DT – estyniad unllawr i gynnwys gofod to mewnol – Cartrefle, Llangwnnadl**.**
(d) Cais C22/1080/32/LL – cais ar gyfer creu morlyn slyri yn Neigwl Plas, Botwnnog.
**Penderfynwyd** cefnogi oll o'r ceisiadau uchod.
**(Datganwyd** diddordeb yng nghais (a) uchod gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac ymneilltuodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).

96. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
**(a) Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn i sylw'r Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:
Dŵr yn llifo i'r ffordd ar y tro cyn cyrraedd Bodnithoedd, Botwnnog, hefyd yr un modd ar y tro cyntaf wedi pasio Llys Meddyg am Fryngwdyn, Botwnnog. Pan yn rhewi neu'n bwrw'n drwm y ffordd yn ddau safle yn beryglus i fodurwyr, beicwyr a.y.
Hefyd gofyn am i Gyngor Gwynedd osod arwyddion ym Mhenygroeslon a Rhydgaled, Nanhoron, i rybuddio modurwyr fod Lôn Penrhos wedi cau, fel y gallant osgoi trafaelio i Glyn y Weddw, Llanbedrog cyn derbyn y neges fod y lôn wedi ei chau.
(b) **Derbyniwyd** gwybodaeth gan y Peiriannydd Ardal Dwyfor fod gwaith o 'newid arwyddion 30/20 mya yn digwydd ym Motwnnog a Sarn yn ystod y mis.'
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.
**(c) Cyflwynwyd** cais am gefnogaeth gan Gyngor Cymuned Llanbedrog ynglyn a'r llifogydd ar A499 ym Mhenrhos. (copi o'r cais wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).
**Penderfynwyd** anfon llythyr o gefnogaeth at y gwahanol Awdurdodau.
**(ch) Cŵyn** o or-yrru dros y 'speed humps' ym Motwnnog yn ystod y dydd a'r nos ac fod y twrw yn amharu ar y trigolion.
**Penderfynwyd** cysylltu â'r Heddlu i geisio datrys y broblem.

97. **AWDURDOD I DALU**
**Penderfynwyd** talu Cyngor Gwynedd am fin halen i Fryncroes - £320 (siec 200772)

98. **ADRODDIAD BLYNYDDOL – CWBLHAU ARCHWILIAD 2021-22**
**Cyflwynwyd** adroddiad fod y ffurflen flynyddol yn cadarnhau cwblhad archwiliad 2021-22 yn ôl gan Archwilio Cymu yn nodi barn ddiamod ac yn nodi 'ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm cyngor sy'n rhoi achos o bryderu.."(Copi o'r ffurflen yn ffurfio rhan o'r cofnodion swyddogol).
Yn unol â'r gofynion rhoddir hysbysebion i fyny yn yr ardal ac ar wefan y Cyngor yn rhoi cyfle i drethdalwyr wneud apwyntiad gyda'r Clarc i archwilio'r cyfrifon.
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

99. **AROLWG ANGHENION TAI BOTWNNOG**

**Cyflwynwyd** :

(a) Gopi o'r arolwg – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

(b) Gwybodaeth am y Cynllun Prynu Carterf Gwynedd gyda phosteri i'w rhannu.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth am yr arolwg a threfnu i roddi posteri Cynllun Prynu Cartref Gwynedd i fyny yn yr ardal.

100. **CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN – CYFLE I DDWEUD EICH DWEUD**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Swyddog Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd ynglyn a'r cynllun uchod. (Copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen). Pwrpas y cynllun yw rhoi "cyfle i bobl leol roi eu barn ar gynlluniau i wella cymunedau Gwynedd a Môn ac i rannu syniadau am sut gall gwasanaethau cyhoeddus gydweithio i'r pwrpas hwn." Mae cyfle i drigolion a mudiadau lleol rannu eu barn ar y cynnwys drwy lenwi holidaur byr ar https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/Cynllun-Llesiant/

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

101. **ADRODDIAD DIWEDDARAF AR WASANAETHAU FASGWLAIDD YNG NGOGLEDD CYMRU**

**Rhannwyd** y wybodaeth ddaeth i law ar 3ydd Chwefror, 2023, ynglyn a'r diweddaraf ar wasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru. (Copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).

102. **GWAITH BARBIO 2023-24**

**Adolygwyd** y telerau ar gyfer gwaith barbio yn ystod 2023-24 a **phenderfynwyd** glynu at yr un telerau a'r llynedd.

103. **GARDDWEST YM MHALAS BUCKINGHAM**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Un Llais Cymru yn gwahodd y Cyngor i enwebu aelod i fynychu Garddwest ym Mhalas Buckingham ym mis Mai.

**Penderfynwyd** ei adael ar y bwrdd.

104. **CYFARFOD O BWYLLGOR ARFON/DWYFOR O UN LLAIS CYMRU**

**Adroddodd** y Cynghorydd Carys H. Evans iddi fynychu y cyfarfod uchod ddechrau'r mis a nodwyd rhai o'r materion a drafodwyd:

Yr Woodlands Trust yn cynnig grantiau ar gyfer plannu coed – awgrymwyd efallai y byddai Ffermwyr Ieuainc neu'r Ysgolion a diddordeb

Cwynion ynglyn a'r ffordd y deliwyd a'r ffurflenni etholiadau yn ôl ym mis Ebrill/Mai llynedd gan yr Adran Etholiadol yng Nghyngor Gwynedd, ac os oedd unrhyw broblem wedi codi gan y Cyngor fod cysylltiad i'w wneud gyda Mel ab Owain, Un Llais Cymru

Bagiau baw cwn – dywedodd un Cyngor eu bod wedi derbyn grant gan AHNE Llyn i gyflenwi rhai.

Pecyn Cymorth i helpu Cynghorau i asesu a yw eu gweithdrefnau ariannol yn gweithio'n iawn – dywedodd fod Mel ab Owain o Un Llais Cymru yn annog pob Cyngor i edrych ar y pecyn yma. Adroddodd y Clarc nad oedd wedi gweld y pecyn ond byddai'n cysylltu â Mel ab Owain i dderbyn y cyfryw.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth a diolch i'r Cynghorydd Carys Evans am ei hadroddiad ac fynychu'r cyfarfod.

105. **CADW PENTREFI'N DACLUS**

**Adroddodd** Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Llyn) fod y Gang glanhau pentrefi yn dod i'r ardal yn fuan a gofynnodd a oedd unrhyw leoliad angen sylw.

**Penderfynwyd** gofyn am gael tacluso Llwybr Ty Fair, Bryncroes.